

---

## **Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn yr oes ddigidol**

Cefnogi darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y degawd  
nesaf a thu hwnt

---

# Gair am y ddogfen hon

---

Dair blynedd ers trydydd adolygiad Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus (PSB), mae'r ddogfen hon yn nodi'r heriau sy'n wynebu'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng nghyd-destun rhagor o ddefnydd o'r cyfryngau ar-lein a chystadleuaeth gan chwaraewyr byd-eang newydd.

Mae'n ystyried pwysigrwydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yr heriau y bydd yn eu hwynebu yn y dyfodol, a beth all Ofcom, fel rheoleiddiwr, ei wneud i gefnogi'r system yn y blynyddoedd i ddod. Mae hefyd yn nodi lle gall darlledwyr gyfrannu at sicrhau bod y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i ddarparu rhaglenni nodedig o safon uchel ar gyfer cynulleidfaoedd yn y Deyrnas Unedig. Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar deledu, ond rydym hefyd yn cydnabod cyfraniad pwysig radio at ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus.

# Cynnwys

---

## Adran

1. Crynodeb gweithredol	1
2. Pam mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn bwysig	3
3. Tirwedd ddarlledu newydd: heriau i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus	7
4. Sicrhau iechyd darlledu gwasanaeth cyhoeddus mewn oes ddigidol	15
5. Casgliadau	19

# 1. Crynodeb gweithredol

- 1.1 **Dair blynedd ers adolygiad diwethaf Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, daeth yr amser i bwysu a mesur.** Bellach mae gan y BBC, congifaen Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, siarter am un mlynedd ar ddeg sy'n rhedeg tan ddiwedd 2027 (tair blynedd yn ddiweddarach na'r trwyddedau ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol).
- 1.2 **Mae gan ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus draddodiad hir a balch yn y Deyrnas Unedig, gan ddarparu newyddion diduedd a dibynadwy, rhaglenni sy'n tarddu o'r Deyrnas Unedig a chynnwys nodedig.** Mae'n rhoi i ni achlysuron i'w gwyllo sy'n dod â'r genedl at ei gilydd ac yn ysgogi sgysiau cenedlaethol, fel *Blue Planet II* ac *Undercover* y BBC, *The Last Leg* gan Channel 4 a *Victoria* gan ITV. Mae ein hymchwil yn dangos bod cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn fawr iawn, ac ar y cyfan yn credu ei fod yn cyflawni ei ddibenion. Mae bodlonrwydd y gynulleidfa â meysydd pwysig fel newyddion a drama wedi codi, er bod pryderon nad yw rhaglenni'n adlewyrchu'n llawn y gwledydd a'r rhanbarthau nac amrywiaeth ehangach y Deyrnas Unedig.
- 1.3 **Fodd bynnag, mae'r dirwedd mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gweithredu ynddi yn newid yn gyflym.** Mae cynulleidfaoedd yn elwa ar ffrwydrad o ddewis o ran llwyfannau a dyfeisiau y gallan nhw eu defnyddio i wyllo'r teledu. Mae Amazon Prime Video a Netflix bellach yn chwaraewyr sefydledig. Maen nhw mewn mwy na thraean o gartrefi yn y Deyrnas Unedig<sup>1</sup>; yn buddsoddi biliynau o bunnoedd mewn rhaglenni, gan wneud i gyllidebau domestig y Deyrnas Unedig ymddangos yn fychan, ond yn canolbwyntio ar gynulleidfa fyd-eang.
- 1.4 **Mae darlledwyr sefydledig hefyd yn wynebu cystadleuaeth gan rai fel Apple, Facebook a Google, sy'n datblygu cynnwys gwreiddiol.** Mae hyn yn creu 'rhuthr i gynyddu graddfa', yn bennaf drwy uno cwmnïau a chaffaeliadau. Mae bwriad 21<sup>st</sup> Century Fox i drofeddiannu Sky a Disney i drofeddiannu 21<sup>st</sup> Century Fox yn enghreifftiau diweddar, gyda Comcast erbyn hyn yn gwneud gwrthgynnig am Sky. Yn y cyfamser yn yr Unol Daleithiau, mae AT&T yn ceisio prynu Time Warner. Yn union fel yr oedd darlledwyr traddodiadol yn wynebu her llwyfannau teledu drwy dalu digidol dau ddegawd yn ôl, maen nhw bellach yn ceisio mwy o raddfa'n fyd-eang i gystadlu â'r cewri digidol.
- 1.5 **Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus hyd yn hyn wedi ymdopi'n dda â'r gystadleuaeth fyd-eang fwy o faint.** Mae cyrhaeddiad, er ei fod yn cwmpo, yn parhau'n uchel. Mae'r rhaglenni mwyaf poblogaidd, gan gynnwys dramâu fel *The Night Manager* a *Broadchurch*, a sioeau adloniant fel *The Great British Bake Off* a *Gogglebox*, yn cymharu'n dda â goreuon y byd. Mae'r prif sianeli teledu darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal i fod yn gyfrifol am hanner yr holl oriau gwyllo, er bod buddsoddi mewn rhaglenni gwreiddiol yn y Deyrnas Unedig - yn sefydlog mewn telerau ariannol - wedi gostwng mewn gwirionedd wrth ystyried chwyddiant. Mae hysbysebu ar y teledu wedi bod yn hynod o gydnerth, er bod y

---

<sup>1</sup> Arolwg Sefydlu BARB, 4ydd Chwarter 2017.

sefyllfa'n meddaldu erbyn hyn, ar sail cymysgedd o ffactorau cylchol a strwythurol, yn ôl pob tebyg. Gwarchodir ffi trwydded y BBC mewn termau real tan o leiaf 2022.

- 1.6 **Mae pobl ifanc yn gwyllo llai o deledu yn ôl amserlen, ac mae'n ymddangos fod hynny'n duedd strwythurol a pharhaol.** Mae pobl yn eu harddegau yn fwy tebygol nag oedolion i wyllo rhaglenni a ffilmiau ar YouTube, ac maen nhw'n treulio rhagor o amser yn defnyddio setiau teledu ar gyfer gweithgareddau fel chwarae gemau neu wyllo Netflix neu Amazon<sup>2</sup>. Mae ymwybyddiaeth o frand y BBC ymysg pobl ifanc bellach yn is na Netflix a YouTube<sup>3</sup>.
- 1.7 **Mae gan Ofcom rôl bwysig, wedi ei sefydlu gan y Senedd, i helpu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i addasu'n llwyddiannus.** Yn y tymor byr, mae hynny'n golygu cefnogi rhaglenni llinellol, tra bydd hynny'n dal i fod yn bwysig i gynulleidfaedd. Byddwn yn sicrhau y gall gwylwyr ddod o hyd i raglenni darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn hawdd drwy gryfhau ein cod Canllaw Rhaglen Electronig mewn ymgynghoriad yn ddiweddarach eleni. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi teledu digidol daearol (DTT); ac mae ein gwaith yn dangos y bydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cael mynediad diwrthwynebiad at deledu digidol daearol am o leiaf y deng mlynedd nesaf, gan fod gwerth y sbectrwm sylfaenol i ddefnyddwyr eraill wedi lleihau.
- 1.8 **Gall darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gymryd camau pwysig i sicrhau eu bod yn parhau i ffynnu, yn bennaf oll drwy wneud rhaglenni o safon uchel a mwy nodedig sy'n apelio at gynulleidfaedd ledled y Deyrnas Unedig, gan gynnwys pobl ifanc.** Yn ogystal, bydd angen i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fanteisio ar wahanol gyfryngau dosbarthu fel ei bod yn hawdd dod o hyd i raglenni ble bynnag mae'r gynulleidfa. Yn y dyfodol, mae'n bosibl y bydd modd i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus drafod ffioedd ail-drosglwyddo gyda llwyfannau i roi hwb i refeniw, a manteisio ymhellach ar y cyfleoedd masnachol sy'n gysylltiedig â rhagor o bersonoli a hysbysebu a yrrir gan ddata.
- 1.9 **Yn y tymor hwy, wrth i'r arferion gwyllo symud ymhellach oddi wrth deledu yn ôl amserlen at deledu ar alw, mae'n bosibl y bydd angen i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gydweithio mwy i gryfhau eu trafodaethau gyda chynhyrchwyr a llwyfannau teledu clyfar.** Wrth asesu effeithiau cystadleuaeth ar bartneriaethau o'r fath, mae angen rhoi ystyriaeth briodol i'r buddion i iechyd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Fel y darlledwr cenedlaethol, byddem yn disgwyl i'r BBC gymryd rôl flaenllaw yn y gwaith o ffurfio partneriaethau.
- 1.10 **Mae'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi addasu'n dda i ddatblygiadau technolegol ac yn y farchnad yn y gorffennol, fel lansio Channel 4 a 5, radio masnachol, teledu aml-sianel a theledu drwy dalu, a'r newid i ddigidol.** Gall addasu eto i heriau'r oes ddigidol os yw'n cymryd y camau cywir, gyda chefnogaeth y Senedd a'r rheoleiddiwr.

---

<sup>2</sup> Ymchwil CMR Ofcom, 2017

<sup>3</sup> [Ofcom, Plant a rhieni: adroddiad ar agweddau a defnydd o gyfryngau, 2017](#)

## 2. Pam mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn bwysig

2.1 **Mae'r sector darlledu yn rhan annatod o economi creadigol ffyniannus yn y Deyrnas Unedig.** Fe'i hadeiladir ar ecoleg gymysg o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, darparwyr teledu drwy dalu (Sky, Virgin Media, BT a TalkTalk) a gwasanaethau fideo ar-lein byd-eang fel Amazon Prime Video a Netflix. Gyda chymorth y sector cynhyrchu, mae'r ecoleg hon wedi darparu dewis cynyddol eang o raglenni o ansawdd uchel ar gyfer cynulleidfaoedd yn y Deyrnas Unedig. Bu'r sector darlledu yn llwyddiant masnachol a diwylliannol i'r Deyrnas Unedig, gan gynhyrchu £13.8 biliwn o refeniw yn 2016<sup>4</sup> neu 0.72 y cant o gynnyrch domestig gros<sup>5</sup>.

### Pwysigrwydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus i gynulleidfaoedd ac i'r gymdeithas

2.2 **Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yw carreg sylfaen teledu yn y Deyrnas Unedig.** Dechreuodd gyda Gwasanaeth Teledu'r BBC ym 1936. Yna crëwyd ITV ym 1955, Channel 4 ym 1982 a Channel 5 ym 1997. Sefydlwyd a datblygwyd darlledu gwasanaeth cyhoeddus gan y Senedd dros nifer o ddegawdau, gyda'r pwrpas clir o sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad at deledu o ansawdd uchel a oedd yn gallu adlewyrchu'r Deyrnas Unedig iddi hi ei hun, dod â'r genedl at ei gilydd ar adegau allweddol, a hysbysu ac addysgu'r gymdeithas. Rhan o'r bwriad oedd hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol. Mae graddfa darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig yn anarferol mewn cymhariaeth â safonau rhyngwladol. Yn y rhan fwyaf o wledydd lle mae teledu yn bwysig, mae'r sector masnachol yn sylweddol fwy.

2.3 **Rhan ganolog o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yw newyddion diduedd y gellir ymddiried ynddo, cynnwys sy'n deillio o'r Deyrnas Unedig sy'n taro tant gyda chymunedau a gwledydd amrywiol y Deyrnas Unedig, a rhaglenni nodedig.** Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn helpu i sicrhau bod rhai mathau o raglenni yn cael eu cynhyrchu - fel y celfyddydau, crefydd, cerddoriaeth glasurol, a rhaglenni gwreiddiol i blant - y byddai llai o ddarpariaeth ohonyn nhw pe bai hynny'n cael ei adael i'r farchnad yn unig. Egwyddor allweddol arall yw'r syniad o wasanaeth i bawb, sef y dylai rhaglenni darlledu gwasanaeth cyhoeddus fod ar gael i bawb, yn rhad ac am ddim wrth ei ddefnyddio.

2.4 Gan ymhelaethu ar y dibenion a bennwyd gan y Senedd, nododd Ofcom bum nodwedd allweddol teledu gwasanaeth cyhoeddus<sup>6</sup>:

- darpariaeth ansawdd uchel (yn cael ei chyllido'n dda a'i chynhyrchu'n dda);

---

<sup>4</sup> Ofcom, darlledwyr, Ampere Analysis, Advertising Association, WARC, BARB

<sup>5</sup> Roedd cynnyrch domestig gros y Deyrnas Unedig yn £1.93 triliwn yn 2016 (ONS)

<sup>6</sup> Adolygiad cyntaf Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, Ebrill 2004:

[https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0023/25655/psb.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0023/25655/psb.pdf)

- gwreiddiol (cynnwys newydd o'r Deyrnas Unedig yn hytrach nag ailddarlledu neu gynnwys a brynwyd i mewn);
- arloesol (creu syniadau newydd neu'n ailddyfeisio dulliau sy'n bodoli'n barod, yn hytrach na chopïo hen rai);
- heriol (peri i'r gwylwyr feddwl); ac
- ar gael yn helaeth (mwyafrif helaeth y bobl yn gallu ei wyllo).

2.5 **Y BBC yw congifaen darlledu gwasanaeth cyhoeddus.** Telir amdano gan y cyhoedd drwy ffi'r drwydded. Mewn cyferbyniad, mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol yn cael eu cyllido gan hysbysebwr. Maen nhw'n cael 'buddion cyhoeddus' fel mynediad am ddim at y sbectrwm a safle uchel (neu 'amlygrwydd') ar ganllawiau rhaglenni teledu yn gyfnewid am gyflwyno cylch gwaith cyhoeddus - newyddion yn fwyaf nodedig - yn genedlaethol, rhanbarthol neu'r ddau. Dim ond y brif sianel fasnachol sydd wedi ei dynodi ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus (h.y. ITV1). Mae sianeli eraill yn y portffolio (e.e. ITV2) yn gwbl fasnachol ac nid oes ganddyn nhw gylch gwaith cyhoeddus. Mae Channel 4, sydd hefyd yn ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus masnachol, yn achos arbennig. Er ei bod yn cael ei chyllido gan hysbysebwr, mae'n gorff sy'n eiddo i'r cyhoedd ac mae elw yn cael ei ail-fuddsoddi mewn rhaglenni. Yn gyfnewid, mae Channel 4 yn darparu cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus cryfach, sy'n debycach i'r BBC, yn seiliedig ar sioeau arloesol sy'n apelio at gynulleidfaoedd iau. Mae gan S4C a BBC Alba gylch gwaith penodol i gefnogi ieithoedd brodorol yng Nghymru a'r Alban yn y drefn honno<sup>7</sup>.

2.6 **Mae amcangyfrifon yn awgrymu bod buddion bod yn ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i ITV a Channel 5 yn cydbwysu'n fras â chostau darparu cylch gwaith cyhoeddus<sup>8</sup>.** Pe byddai'r buddion ar unrhyw adeg yn cael eu gorbwysu gan y costau, gallai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol ddewis peidio â bod yn ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Y pwynt nesaf amlwg i wneud hynny fyddai pan ddaw'r amser i adnewyddu eu trwyddedau yn 2024.


---

<sup>7</sup> Mae S4C, a sefydlwyd ym 1982, yn darlledu yn bennaf yn yr iaith Gymraeg i gynulleidfaoedd yng Nghymru. Mae BBC Alba, a sefydlwyd yn 2008, yn eiddo ar y cyd i'r BBC ac MG Alba ac yn darlledu'n bennaf yn iaith Gaeleg yr Alban. Mae trwyddedigion Channel 3 yn darlledu newyddion lleol a rhaglenni nad ydyn nhw'n newyddion i wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. STV plc sy'n meddu ar y drwydded Channel 3 yn yr Alban, tra mai ITV plc sy'n meddu ar holl drwyddedau rhanbarthol eraill Channel 3 yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.

<sup>8</sup> [https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf\\_file/0021/24078/c3\\_c5\\_licensing.pdf](https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0021/24078/c3_c5_licensing.pdf)

2.7 **Mae cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac yn gyffredinol, maen nhw'n credu bod y system yn cyflawni ei nodau.** Mae rhaglenni'n parhau i fod yn boblogaidd. Yn 2017 roedd hanner yr holl oriau a wylwyd o gynnwys darlledwyr ar setiau teledu yn perthyn i sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ffigur nad yw wedi newid rhyw lawer er 2013<sup>9</sup> (Gweler Ffigur 1). Mae sgoriau bodlonrwydd hefyd yn uchel yn gyffredinol. Mae cynulleidfaoedd yn arbennig o hoff o'r ffaith bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ceisio 'hysbysu eu dealltwriaeth o'r byd'<sup>10</sup>. Mae'r mwyafrif helaeth o gynulleidfaoedd yn parhau i gredu bod newyddion darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ddibynadwy<sup>11</sup>; (ystyrir Sky News gyda'r un parch). Mae hyn yn teimlo'n arbennig o bwysig ar adeg pan fo llawer o newyddion ar-lein ar wahanol raddau o gywirdeb, gan gynnwys achosion o 'newyddion ffug' llwyr.

**Ffigur 1: Cyfran sianeli o holl ddarpariaeth darlledwyr: 1989-2017<sup>12</sup>**



<sup>9</sup> BARB, pob unigolyn

<sup>10</sup> Traciwr darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus Ofcom, 2016, oedolion y Deyrnas Unedig dros 16 oed.

<sup>11</sup> Ibid

<sup>12</sup> Nodiadau: cyflwynwyd paneli BARB newydd yn 2002 a 2010, felly mae'n rhaid bod yn ofalus wrth gymharu data cyn ac ar ôl newid y panel; mae'r pum sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys ffigurau gwyllo eu sianeli HD ond nid ydyn nhw'n cynnwys ffigurau gwyllo eu sianeli +1. Roedd newid hefyd i'r system ddadansoddi a ddefnyddiwyd i redeg y data o 2010 ymlaen. Sianeli portffolio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yw pob sianel deulu a weithredir gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ac eithrio eu prif sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, e.e. ITV2, BBC 4, ac ati. Mae'r holl sianeli eraill yn sianeli sy'n cael eu gweithredu gan sefydliadau nad ydyn nhw'n ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae S4C wedi ei chynnwys yn ffigurau Channel 4 tan 2009. Ar ôl y pwynt hwnnw caiff ei chynnwys gyda phob sianel arall.



- 2.8 **Fodd bynnag, mae pryder ymysg cynulleidfaoedd nad yw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn portreadu ac yn cynrychioli cenedloedd, rhanbarthau a chymunedau amrywiol y Deyrnas Unedig yn llawn.** Mae menywod hŷn, pobl ifanc, pobl sy'n byw y tu allan i Lundain a phobl o gefndiroedd lleiafrifol ethnig yn teimlo'n llai bodlon â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus nag y mae cynulleidfaoedd eraill. Yn ogystal, mae elfennau o'r cylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus nad ydyn nhw'n cael digon o ddarpariaeth, fel rhaglenni plant gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig. Drwy ein trwydded weithredu newydd, rydym yn dal y BBC i gyfrif o ran cynnwys nodedig. Ac mae gennym adolygiadau manwl eleni o bortread a chynrychiolaeth y BBC, ac o raglenni plant ar draws y diwydiant.
- 2.9 **Yn ogystal â'r gwerth i gynulleidfaoedd, mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn darparu manteision sylweddol i'r diwydiant darlledu ehangach a'r economi.** Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cefnogi gallu'r sector darlledu cyfan drwy fuddsoddi mewn doniau, hyfforddiant, ac ymchwil a datblygu newydd. Bu'r iPlayer yn fodd o arloesi o ran dosbarthu ar draws y sector. Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd wedi helpu i greu sector annibynnol sy'n ffynnu. Mae gan Channel 4, sydd drwy ei ddyluniad yn ddarlledwr sy'n comisiynu, y nod penodol o gefnogi cynhyrchu annibynnol. Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi rhoi hwb i fuddsoddiad a chreadigrwydd mewn rhaglenni drwy gyd-gynrychiadau, fel *Humans* gan Channel 4 a *The Durrells* gan ITV. Maen nhw hefyd wedi helpu i lunio rhagor o amrywiaeth, drwy raglenni fel *Chewing Gum* a *The Boy With The Topknot* yn y sector ehangach (er bod cynnydd sylweddol i'w wneud eto) a chynyddu nifer yr allfeydd sy'n darparu newyddion cenedlaethol a rhanbarthol.

### 3. Tirwedd ddarlledu newydd: heriau i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus

- 3.1 **Erbyn hyn mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu nifer o heriau wrth i'r dirwedd ddarlledu newid yn sylfaenol.** Mae twf mawr yn y defnydd o ddyfeisiau ar-lein a chysylltiedig, sy'n cael ei yrru gan arloesi technolegol, wedi galluogi chwaraewyr byd-eang mawr newydd i ymuno â'r farchnad, a newid mewn arferion gwyllo yn hytrach na theledu sy'n dilyn amserlen<sup>13</sup>.
- 3.2 **Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Netflix ac Amazon Prime Video wedi cynyddu eu cynulleidfaedd o ddim i 8.2 miliwn o aelwydydd a 4.3 miliwn o aelwydydd yn y drefn honno<sup>14</sup>.** Mae YouTube yn cyrraedd mwy na 40 miliwn o bobl y mis yn y Deyrnas Unedig<sup>15</sup>. Mae Apple a Facebook bellach wedi ymuno â'r farchnad cynnwys fideo ar-lein. Yn wahanol i ddarlledwyr traddodiadol, nid yw'r un o'r cwmnïau hyn yn cael eu rheoleiddio yn y Deyrnas Unedig o ran eu heffaith ar y farchnad ehangach nac o ran eu safonau darlledu. Fel y dengys Ffigur 2, galluogwyd gwyllo ar-alw ar-lein gan dreiddiad ffonau clyfar, a gynyddodd o 39 y cant i 76 y cant dros y pum mlynedd diwethaf, ac argaeledd band eang cyflym iawn yn helaeth. Mae nifer y rhai sy'n manteisio ar fand eang bellach yn 83 y cant, ac mae gan 91 y cant o eiddo<sup>16</sup> fynediad at fand eang cyflym iawn o 30mbps, i fyny o 73 y cant yn 2013<sup>17</sup>.

---

<sup>13</sup> Mae deall defnydd cynulleidfaedd o wasanaethau teledu ar-lein newydd yn heriol, gan nad oes un ffynhonnell ddata gywir, ond mae'r data sydd ar gael yn awgrymu bod mwy na hanner poblogaeth y Deyrnas Unedig yn gwyllo teledu ar-lein yn rheolaidd.


<sup>14</sup> Arolwg Sefydlu BARB, 4ydd Chwarter 2017.

<sup>15</sup> comScore MMX Aml-blatfform, Rhagfyr 2017, Oedran bwrdd gwaith 6+, Oedran symudol 18+. Mae MMX Aml-blatfform yn cynnwys pori ar fwrdd gwaith, ffrydiau fideo bwrdd gwaith, pori ar ffonau clyfar ac apiau, pori ar gyfrifiaduron tabled ac apiau

<sup>16</sup> Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, Ofcom, 2017

<sup>17</sup> Adroddiad Seilwaith, Ofcom, 2013

**Ffigur 2: Defnydd cartrefi o ddyfeisiau a gwasanaethau cyfathrebu: 2007-2017**



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, Arolwg Sefydliu BARB

**3.3 Mae'r tueddiadau hyn wedi galluogi ffrydio HD a llwytho i lawr ffilmiau a chyfresi teledu yn gyflym.** Mae argaeledd cynyddol 4G symudol wedi galluogi rhagor o bobl i wylïo'r teledu wrth symud heb golli llawer o ran ansawdd y lluniau na'r sain.


**3.4 Mae'r canlyniadau wedi bod yn gadarnhaol iawn i wylwyr, sydd bellach â chyfoeth o ddewis ynghylch sut, pryd a beth maen nhw'n ei wylïo.** Rydym nid yn unig wedi gweld dyfodiad chwaraewyr byd-eang mawr, ond hefyd twf mewn sianeli a rhaglenni a gwasanaethau ar alw gan ddarllledwyr sefydledig - iPlayer y BBC, Now TV gan Sky, All4 gan Channel 4, ITV Hub gan ITV a My5 gan Channel 5. Ochr yn ochr â hyn, mae platfformau fel Sky, Virgin Media a Freeview wedi buddsoddi mewn rhyngwynebau newydd i ddefnyddwyr sy'n darparu rhagor o ffyrdd i gynulleidfaedd ddod o hyd i'r rhaglenni maen nhw eisiau eu gwylïo.

## Newid mewn arferion gwylïo

**3.5 Mae'r ffrwydrad o ddewis yn arwain at newidiadau pwysig o ran arferion gwylïo.** Mae cynulleidfaedd, yn enwedig pobl ifanc, yn gwylïo llai o deledu yn ôl amserlen, ac mae'n ymddangos fod hynny'n duedd strwythurol barhaol. Mae ffigurau gwylïo teledu wedi ei ddarlledu wedi bod yn gostwng yn gyson, wrth i wasanaethau ar-alw ac ar-lein gystadlu â darllledwyr am amser y gynulleidfa. Mae gwylïo darpariaeth draddodiadol teledu wedi ei ddarlledu ar set deledu wedi gostwng 16 pwynt canran, o 242 munud y diwrnod yn 2010 i 203 munud y diwrnod yn 2017<sup>18</sup>.

<sup>18</sup> BARB, pob unigolyn

**Ffigur 3: Munudau cyfartalog dyddiol gwyllo cynnwys darlledwr, yn ôl oedran: 2002-2017**




Ffynhonnell: BARB, rhwydwaith. Cyflwynwyd panel BARB newydd ar 1 Ionawr 2010 ac felly mae'n rhaid ymdrin â'r data cyn ac ar ôl newid y panel yn ofalus.

**3.6 Mae'r cwmp yn ffigurau gwyllo teledu sy'n dilyn amserlen ymysg pobl ifanc wedi bod hyd yn oed yn fwy serth.** Fel y dengys Ffigur 3, bu 34 pwynt canran o ostyngiad ymhlith pobl 16-34 oed rhwng 2010 a 2017. Mae cynulleidfaoedd hefyd yn ategu teledu sy'n dilyn amserlen gyda gwasanaethau ar-alw a ffrydio, teledu wedi ei recordio a rhaglenni ar alw am dâl (e.e. Netflix), fel y dangosir yn Ffigur 4. Mae pobl ifanc yn eu harddegau hefyd yn fwy tebygol nag oedolion i wyllo rhaglenni a ffilmiau ar YouTube (66 y cant o'i gymharu â 38 y cant)<sup>19</sup>. Maen nhw hefyd yn defnyddio rhagor ar eu setiau teledu ar gyfer gweithgareddau eraill fel chwarae gemau, YouTube, Netflix a rhaglenni dal i fyny mewn cymhariaeth ag oedolion (mwy nag awr y diwrnod o'i gymharu â 41 munud y diwrnod<sup>20</sup>).

<sup>19</sup> Ymchwil CMR Ofcom, 2017

<sup>20</sup> BARB, gwyllo heb ei gyfateb nad oes modd ei briodoli i ddarlledwyr


Ffigur 4: Amser gwyllo fideo ar gyfartaledd<sup>21</sup> fesul diwrnod, pob unigolyn a phobl 16-24 oed: 2016



3.7 Er bod teledu traddodiadol yn dal i gyfrif am y rhan fwyaf o wyllo, mae'n is ymhlith pobl ifanc, 75 y cant ar gyfer pob cynulleidfa mewn cymhariaeth â 56 y cant ar gyfer pobl ifanc - gweler Ffigur 4. At hynny, mae tystiolaeth yn awgrymu er bod pobl yn tueddu i wyllo rhagor o deledu wrth iddyn nhw fynd yn hŷn o hyd, mae'r duedd hon yn arafu, fel y dangosir yn Ffigur 5.

<sup>21</sup> Mae hyn yn cynnwys fideo ar draws pob categori, gan gynnwys llwyfannau (teledu, DVD, sefydlog a symudol ar-lein, sinema, ac ati), hyd, ffenestr a genre. Mae teledu chwarae eto yn gynnwys fideo wedi ei recordio ar recordydd fideo digidol. Mae fideo ar alw darledwr yn cynnwys gwasanaethau fel BBC iPlayer ac ITV Hub. Mae fideo ar alw drwy danysgrifio yn cynnwys gwasanaethau fel Netflix ac Amazon Prime Video. Mae Facebook a YouTube yn cynnwys ffilmiau a rhaglenni teledu wedi eu cynhyrchu'n broffesiynol yn ogystal â chynnwys byr sy'n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr.

Ffigur 5: Munudau cyfartalog gwyllo cynnwys darlledwr fesul diwrnod, yn ôl oedran: 2007 a 2017



Ffynhonnell: BARB, Rhwydwaith. Cyflwynwyd panel BARB newydd ar 1 Ionawr 2010. O ganlyniad, rhaid bod yn ofalus wrth ymdrin â data a gasglwyd cyn ac ar ôl newid y panel. Nid yw'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar olrhain arferion gwyllo'r un bobl, ond mae'n rhoi syniad o ymddygiadau gwyllo sy'n newid.

3.8 Yn ychwanegol, mae tystiolaeth bod ymwybyddiaeth o frandiau darlledwyr traddodiadol ymysg pobl ifanc, gan gynnwys y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn dirywio. Fel y gwelir yn Ffigur 6, mae YouTube a Netflix bellach ar y blaen i BBC One a BBC Two ymysg pobl ifanc 12-15 oed.

Ffigur 6: Ymwybyddiaeth o frand darparwyr cynnwys ymysg rhai rhwng 12 a 15 oed sy'n mynd ar-lein: 2017



Ffynhonnell: Arolwg ar-lein llythrennedd yn y cyfryngau gyda phlant rhwng 12 a 15 oed, 1-7 Mehefin 2017 / Plant a rhieni: adroddiad ar agweddau a defnydd o gyfryngau 2017  
 Cwestiwn 1 - Dyma rai cwmnïau y gallech chi fod wedi clywed amdany'n nhw. Allech chi ddewis y rhai sy'n gyfarwydd i chi, os gwelwch yn dda? (atebion wedi eu cynnig, sawl cod) Sylfaen: Plant rhwng 12 a 15 oed sy'n mynd ar-lein (500).

## Amlygrwydd a gwyllo tameidiog

3.9 Mae'r darniad hwn o arferion gwyllo ar draws gwahanol lwyfannau yn arwain at heriau o ran sicrhau y gellir dod o hyd i gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn hawdd. Erbyn hyn, mae gan gynulleidfaoedd lawer o ffyrdd o gysylltu setiau teledu â'r rhyngwrdd - drwy flwch pen set, dyfais y gellir ei phlygio i mewn fel FireTV Amazon, neu'n uniongyrchol - pob un gyda lefel uwch o fodolau chwilio ac argymell. Mae rhyngwynebau defnyddwyr modern, fel blwch Sky Q, yn gallu hyrwyddo cynnwys ar-alw a chyfresi yn seiliedig ar ddewisiadau gwylwyr yn y gorffennol, o flaen sianeli darlledu llinellol.

- 3.10 **Er bod rheoleiddio'n gwarantu amlygrwydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar y canllawiau rhaglenni sianeli 'llynellol' traddodiadol, dyluniwyd y rheolau cyn dyfodiad y cyfryngau digidol, ac felly nid ydyn nhw'n berthnasol iddyn nhw.** Mae rheoleiddio wedi sicrhau bod y prif ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ymddangos yn uchel yn y canllawiau teledu llynellol. Mewn cyferbyniad, nid yw amlygrwydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar ddyfeisiau cysylltiedig, fel setiau teledu clyfar neu wasanaethau ar-lein, yn cael ei reoleiddio. Ac mae cymhlethdod helaeth y cyfryngau hyn - a thechnolegau newydd fel chwilio gyda'r llais – yn golygu y byddai rheoleiddio'n heriol. Ar hyn o bryd, mae chwaraewyr dal i fyny darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn eang yn y manau y byddai cynulleidfaoedd yn disgwyl dod o hyd iddyn nhw. Mae'r sefyllfa hon yn dibynnu ar drafodaethau masnachol rhwng y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r llwyfannau. Er bod gan y naill ochr a'r llall ddiddordeb cyffredin mewn rhoi lle amlwg i gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus - o ystyried ei werth yng ngolwg cynulleidfaoedd - yn ymarferol, gall trafodaethau o'r fath fod yn gymhleth ac yn feichus.

## Cynnydd mewn cyllidebau cynnwys

- 3.11 **Mae gan y chwaraewyr byd-eang mawr ar-lein gyllidebau rhaglenni sylweddol, sy'n darparu rhaglenni o ansawdd uchel ar gyfer cynulleidfaoedd.** Mae hyn yn ei dro yn gyrru costau am i fyny - yn enwedig yn achos drama premiwm. Mae cost fesul pennod drama premiwm mor uchel â \$10 miliwn (£7.8 miliwn<sup>22</sup>) erbyn hyn. Roedd gan Netflix gyllideb cynnwys o \$8.9 biliwn<sup>23</sup> (£6.9biliwn<sup>24</sup>) yn 2017. Mae hyn yn cymharu â £2.6 biliwn<sup>25</sup> ar gyfer cynnwys sy'n deillio o'r Deyrnas Unedig ar gyfer yr holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyda'i gilydd yn 2016, gyda'r BBC yn cyfrif am hanner hynny, sef £1.3 biliwn<sup>26</sup>. Bu gwariant yn gymharol ddigynfnewid mewn termau arian parod am y degawd diwethaf, sy'n cynrychioli dirywiad sylweddol mewn termau real. Ac mae buddsoddiad y BBC ei hun mewn cynnwys o'r Deyrnas Unedig wedi gostwng o £1.5 biliwn<sup>27</sup> i £1.3 biliwn mewn termau real er 2008.

---

<sup>22</sup> Trosiad wedi ei gyfrifo gan ddefnyddio cyfraddau cyfnewid tramor HMRC, cyfartaledd ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2017 (\$1/£ 0.7796)

<sup>23</sup> Datganiadau Ariannol Netflix, arian a wariwyd ar gynnwys ffrydio yn 2017

<sup>24</sup> Trosiad wedi ei gyfrifo gan ddefnyddio cyfraddau cyfnewid tramor HMRC, cyfartaledd ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2017 (\$1/£ 0.7796)

<sup>25</sup> Ffurflenni ymateb darlledwyr i Ofcom

<sup>26</sup> Adroddiad Ymchwil Blynyddol ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, 2017

<sup>27</sup> Ibid



- 3.12 **Daw'r cynnydd yng nghyllidebau chwaraewyr byd-eang mawr ar adeg pan mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol yn wynebu sefyllfa lle mae llai o refeniw hysbysebu ar gael.** Bu gostyngiad o tua 4% mewn refeniw hysbysebu teledu yn 2017<sup>28</sup>, mewn maes a fu'n gydnerth am amser hir, a rhagwelir y bydd y sefyllfa yr un fath yn 2018<sup>29</sup>. Ymddengys mai ffactorau cylchol yw'r gyrrwr allweddol - ansicrwydd macro-economaid a dirywiad yn hyder defnyddwyr. Mae maint unrhyw ddirywiad strwythurol yn aneglur, ond mae'n ymddangos bod y risgiau'n tyfu. Er bod ITV wedi lleihau ei ddibyniaeth ar refeniw hysbysebu traddodiadol i 44 y cant<sup>30</sup> (ond 71 y cant o elw, er hynny<sup>31</sup>), mae Channel 4 yn dibynnu ar hysbysebu a nawdd am 94 y cant o'i refeniw<sup>32</sup>.

## Cydgrynhai a'r 'rhuthr am raddfa'

- 3.13 **Mae cryfder chwaraewyr byd-eang fel Netflix, a mynediad llwyfannau byd-eang eraill fel Facebook i faes cynnwys gwreiddiol, wedi cychwyn ar don o atgyfnerthu.** Wedi eu gyrru gan dueddiadau yn yr Unol Daleithiau yn bennaf, mae cwmnïau cyfryngau traddodiadol yn credu bod angen mwy o raddfa arnyn nhw i gystadlu'n uniongyrchol â gweithredwyr cebl cyfunol a chwaraewyr byd-eang newydd, neu er mwyn gallu trafod â nhw'n effeithiol i werthu cynnwys.
- 3.14 **Gwelwyd hyn yn fwyaf diweddar ym mwriad 21<sup>st</sup> Century Fox's i drofeddiannu Sky (a gwrthgynnig gan Comcast), caffaeliad arfaethedig Disney o 21<sup>st</sup> Century Fox a bwriad AT&T i brynu Time Warner.** Os caiff ei gymeradwyo, byddai cyfalafu'r farchnad yn achos Disney-Fox, Comcast-Sky ac AT&T-Time Warner yn llai na hanner cyfalafu'r farchnad yn achos Facebook (\$532 biliwn), Amazon (\$735 biliwn), Alphabet (\$790 biliwn) neu Apple (\$911 biliwn)<sup>33</sup>. Yn y Deyrnas Unedig, mae Channel 5 eisoes yn rhan o grŵp cyfryngau byd-eang (Viacom); gallai prif gwmnïau cyfryngau annibynnol eraill y Deyrnas Unedig ddod yn dargedau trosfeddiannu os yw'r don hon o gyfuno yn parhau, fel mae'n ymddangos yn debygol.

---

<sup>28</sup> Amcangyfrifon Ofcom yn seiliedig ar gyfweiliadau gyda'r diwydiant

<sup>29</sup> Ibid

<sup>30</sup> Canlyniadau blwyddyn lawn ITV plc ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2017

<sup>31</sup> Creodd busnes Darlledu ac Ar-lein ITV 71 y cant o gyfanswm y grŵp EBITA (fodd bynnag, nodwn fod yr uned fusnes hon yn cynnwys rhywfaint o refeniw nad yw'n hysbysebu, sydd felly'n elw), canlyniadau blwyddyn lawn ITV plc am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2017

<sup>32</sup> <http://annualreport.channel4.com/downloads/FULL%20AR%202016.pdf>, t.113

<sup>33</sup> Market capitalisation of Facebook, Apple, Amazon and Google Alphabet, Yahoo Finance, 27 Chwefror 2018

## 4. Sicrhau iechyd darlledu gwasanaeth cyhoeddus mewn oes ddigidol

4.1 **Er bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu heriau newydd, maen nhw wedi bod yn hynod fedrus yn y gorffennol wrth ymateb i ddatblygiadau yn y farchnad:**

- creu portffolios sianeli, gan wrthbwysu llawer o'r dirywiad mewn ffigurau gwyllo ar y prif sianeli gwasanaeth cyhoeddus;
- lansio llwyfannau Freeview a Freesat i sicrhau bod teledu aml-sianel di-dâl ar gael yn gyffredinol;
- datblygu gwasanaethau dal i fyny ar alw i alluogi cynulleidfaoedd i wyllo ar amser o'u dewis a chynhyrchu refeniw hysbysebu ar-lein ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus;
- creu profiad gwyllo teledu mwy personol drwy gael data personol gan wylwyr gwasanaethau ar-lein; a
- thrwy gynnig gwasanaethau newydd yn uniongyrchol i farchnadoedd tramor, fel cydfenter 'Britbox' y BBC a'r ITV yn yr Unol Daleithiau.

4.2 **At hynny, mae marchnadoedd cyfryngau byd-eang a llwyfannau ar-lein cryf wedi eu cyllido'n dda yn cyflwyno cyfleoedd yn ogystal â heriau.** Mae natur atyniadol rhaglenni Saesneg i gynulleidfaoedd tramor a phrynwyr cynnwys yn golygu bod marchnadoedd sylweddol a chynyddol i werthu sioeau o'r Deyrnas Unedig, yn ogystal â nifer mwy o bartneriaid cyd-gynhyrchu posibl. Er mwyn manteisio ar y cyfleoedd hyn i sicrhau iechyd parhaus darlledu gwasanaeth cyhoeddus, bydd yn ofynnol i ddarlledwyr ddangos arweiniad, gyda chymorth y rheoleiddiwr.

### Sut gall Ofcom gefnogi'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus

#### Amlygrwydd

4.3 **Bydd Ofcom yn ceisio sicrhau'r amlygrwydd a'r argaeledd ehangaf posibl i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus.** Am nifer o flynyddoedd eto, bydd amlygrwydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar y canllaw teledu llinellol yn parhau i fod yn bwysig o ystyried y cynulleidfaoedd teledu uchel, er eu bod yn dirywio, ar gyfer teledu sy'n dilyn amserlen. Yn dilyn darpariaethau newydd yn Neddf yr Economi Ddigidol 2017, rydym yn cynnal adolygiad o'r Canllawiau Rhaglenni Electronig. Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn ymgynghori ar gynigion i sicrhau ei bod hi'n parhau i fod yn hawdd dod o hyd i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, cynnal prif safle'r prif ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a rhoi slotiau uwch i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus llai o faint, fel sianeli plant y BBC, BBC News, BBC Alba, S4C a sianeli teledu lleol. Rydym hefyd yn bwriadu gwneud argymhellion ynghylch y posibilrwydd o ymestyn y gyfundrefn gyfredol i wyllo ar alw. Pe bai'r Senedd o'r farn bod amlygrwydd gwasanaethau ar alw yn hollbwysig ar gyfer iechyd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol, ac mai dim ond drwy reoleiddio y gellid cyflawni hynny, byddai angen deddfwriaeth sylfaenol.

- 4.4 **Wrth edrych ymlaen, bydd pwysigrwydd cynyddol personoli, peiriannau argymell a chwilio gan ddefnyddio'r llais yn ei gwneud yn anoddach rheoleiddio o unrhyw fath er mwyn sicrhau amlygrwydd.** O ganlyniad, mae dadl ryngwladol gynyddol ynglŷn â sut i fynd i'r afael â heriau amlygrwydd yn y tymor hwy. Er enghraifft, mae'r *Bund-Länder Kommission* yn yr Almaen (comisiwn ffederal gwladwriaeth yr Almaen) wedi ystyried fframwaith cyfreithiol newydd a fyddai'n ymestyn rheolau amlygrwydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus i fathau newydd o lwyfannau cyfryngau er mwyn sicrhau dewis a lluosogrwydd<sup>34</sup>.

## Teledu Daearol Digidol

- 4.5 **Dengys ein dadansoddiad y bydd y llwyfan teledu daearol digidol yn parhau i fod yn ddiwrthwynebiad ar gyfer teledu rhad ac am ddim am y deng mlynedd nesaf o leiaf.** Er bod y rhan fwyaf o ddarlledwyr yn disgwyl ymfudo'n llawn i'r rhyngwrwd yn y tymor hir, nid yw hynny'n ymarferol heddiw. Nid yw rhwydweithiau band eang o ansawdd digonol eto i gefnogi ffrydio HD cyffredinol, ac ni all mwy na 40 y cant o setiau teledu gysylltu â band eang eto. Felly, ar gyfer darlledwyr a gwylwyr fel ei gilydd, bydd teledu daearol digidol yn parhau'n bwysig am beth amser eto. Roedd ein gwaith cynharach wedi awgrymu y byddai cystadleuaeth gref gan gwmnïau symudol ar gyfer y tonnau awyr gwerthfawr, neu'r sbectrwm, sy'n sail i deledu daearol digidol. Ond mae galw symudol wedi lleihau'n sylweddol wrth i fuddsoddiadau mewn 5G ofyn am sbectrwm mewn amleddau uwch.

## Sut gall darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus arwain

### Rhaglenni safon uchel o'r Deyrnas Unedig

- 4.6 **Y ffordd fwyaf pendant i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus barhau i ffynnu yw cynhyrchu cynnwys unigryw o safon uchel o'r Deyrnas Unedig.** Mae cynulleidfaoedd y Deyrnas Unedig eisiau rhaglenni sy'n adlewyrchu bywyd yn y Deyrnas Unedig ac sy'n adrodd storïau'r Deyrnas Unedig. Er i chwaraewyr byd-eang godi'r safon o ran uchelgais ac ansawdd eu rhaglenni yn sicr, (yn enwedig mewn drama), maen nhw'n gwasanaethu cynulleidfa fyd-eang, nid cynulleidfa'r Deyrnas Unedig yn benodol. Mae cyfresi fel *The Crown* gan Netflix sy'n ymwneud â'r Deyrnas Unedig yn eithriad yn hytrach na'r norm.
- 4.7 **Mae hyn yn gyfle allweddol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wneud eu hunain yn wahanol i chwaraewyr byd-eang a chynnal cynulleidfa fawr yn y Deyrnas Unedig.** Bydd angen buddsoddiad ar lefelau uchel gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mewn cynnwys o'r Deyrnas Unedig, yn enwedig gan y BBC. Yn ogystal, bydd angen i'r cynnwys hwnnw fod yn fwy nodedig ac yn fwy deniadol i gynulleidfaoedd sydd yn y perygl mwyaf o droi eu cefnau ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus - pobl ifanc, pobl sy'n byw y tu allan i Lundain a phobl o leiafrifoedd ethnig. At hynny, mae'r elfen o 'bawb ar eu hennill' drwy werthu fformatau drama ac adloniant gorau'r Deyrnas Unedig i farchnadoedd tramor.

---

<sup>34</sup> <https://www.bundesregierung.de/Content/DE/Anlagen/BKM/2016/2016-06-14-medienkonvergenz-bericht-blk.pdf?blob=publicationFile&v=3>

## Argaeledd eang a hawdd

- 4.8 **Bydd angen i ddarllledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd sicrhau bod eu rhaglenni yn hawdd eu canfod ar amrywiaeth eang o lwyfannau, dyfeisiau a gwasanaethau.** Mae hyn yn golygu buddsoddi mewn ffyrdd arloesol o ddsbarthu sianeli a gwasanaethau ar alw i ddenu cynulleidfaoedd sy'n gynyddol dameidiog. Mae'r darllledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau bod eu cynnwys ar gael ar amrywiaeth eang o lwyfannau. Gwnaed hyn drwy ddatblygu eu platfformau eu hunain, fel Freeview, Freesat, YouView a'u chwaraewyr ar alw eu hunain, a hefyd drwy blatfformau trydydd parti fel Sky a Virgin. Maen nhw hefyd wedi dosbarthu eu rhaglenni a'u clipiau drwy wasanaethau ar-lein fel Netflix, YouTube a Facebook. Bydd y strategaethau mae'r darllledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn eu mabwysiadu i sicrhau bod eu rhaglenni'n cyrraedd cynulleidfa eang yn hollbwysig o ran penderfynu a yw'r system yn ffynnu yn y byd ar-lein.
- 4.9 **O ystyried ei rôl ganolog, byddem yn disgwyl i'r BBC fod yn weithgar wrth sicrhau bod ei wasanaethau yn cael eu dosbarthu ym mhob man mae cynulleidfaoedd yn disgwyl iddyn nhw fod.** Mae'n ddealladwy y bydd y BBC eisiau amddiffyn ei frand, trafod amlygrwydd ei wasanaethau ar alw, a sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gwybod pryd maen nhw'n gwyllo rhaglenni'r BBC. Ar yr un pryd, dylai'r BBC arloesi a dosbarthu mewn ffyrdd sy'n cyrraedd pob cynulleidfa a bodloni'r gofynion am ragor o bersonoli.

## Partneriaethau

- 4.10 **Bydd angen i'r darllledwyr gwasanaeth cyhoeddus gydweithio i roi rhagor o amlygrwydd iddyn nhw eu hunain.** Mae cost dosbarthu a chynnwys yn golygu y bydd angen i ddarllledwyr gwasanaeth cyhoeddus ffurfio partneriaethau gyda'i gilydd a chyda chystadleuwyr masnachol a Theledu drwy Dalu. Gallai'r partneriaethau hyn fod mewn meysydd mor amrywiol â marchnata a gwerthu hysbysebion, ymchwil a datblygu, gwerthu dramor, cyd-gynhyrchu a bargeinion dosbarthu. Mae ITV a'r BBC wedi lansio 'Britbox' yn llwyddiannus, sef gwasanaeth tanysgrifio ar alw yn yr Unol Daleithiau, gyda 250,000 o bobl wedi cofrestru erbyn hyn.<sup>35</sup> Yn ogystal, bu'r darllledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu Freeview Play, gan sicrhau bod eu gwasanaethau ar-alw ar gael i gynulleidfaoedd Freeview drwy ryngwyneb defnyddiwr safonol.

---

<sup>35</sup> <http://www.bbcwpressroom.com/press/britbox-announces-quarter-million-subscribers-eve-one-year-anniversary-u-s/>

- 4.11 **Wrth asesu'r partneriaethau hyn, mae angen i'r fframwaith cystadlu fod yn fwy sensitif i ddwysedd cystadleuaeth byd-eang.** Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi ceisio dod at ei gilydd yn y modd hwn yn y gorffennol. Yn 2007, fe wnaethon nhw gyflwyno cynnig - *'Kangaroo'* - i ddsbarthu eu rhaglenni ar alw gyda'i gilydd. Gwrthodwyd hyn gan awdurdodau cystadleuaeth ar y pryd yn sgil pryder y byddai'n gwanhau sefyllfa chwaraewyr eraill yn y farchnad. Ers hynny, mae dynameg y farchnad wedi newid yn sylweddol. Byddai angen i'r fframwaith cystadlu ystyried y datblygiadau hynny pe bai cynnig tebyg yn cael ei gyflwyno heddiw. Rhan o'r cyd-destun ehangach fyddai pwysigrwydd cadw darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ochr yn ochr ag ystyried effeithiau'r farchnad.
- 4.12 **Yn ogystal, bydd angen i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus weithio mewn partneriaeth agosach gyda'r chwaraewyr byd-eang.** Mae cwmnïau byd-eang, fel Netflix, eisoes yn cyfrannu arian sylweddol tuag at rai rhaglenni darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn enwedig mewn drama, drwy fargeinion cyd-gynhyrchu yn gyfnewid am hawliau tramor, fel *Troy: Fall of a City*, oedd yn gyd-gynhyrchiad rhwng y BBC a Netflix. Maen nhw hefyd yn taro bargeinion â darparwyr Teledu drwy Dalu yn y Deyrnas Unedig. Yn ddiweddar, mae Sky wedi llofnodi cytundeb i gynnal app Netflix ar ei set pen bocs Sky Q, tra bod BT, Virgin Media a TalkTalk eisoes yn cynnig mynediad at Netflix yn eu pecynnau teledu drwy dalu. Bydd angen i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus archwilio ffyrdd newydd o weithio gyda'r chwaraewyr ar-lein, o ran sicrhau rhagor o fuddsoddiad mewn rhaglenni gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig, neu i sicrhau bod eu cynnwys yn cael lle amlwg.

## 5. Casgliadau

- 5.1 Mae hanes system darlledu gwasanaeth cyhoeddus y Deyrnas Unedig, a diwydiant teledu'r Deyrnas Unedig yn ehangach, yn un o addasu'n llwyddiannus i newid aflonyddgar a mynediad at y farchnad. Hanfod y degawd nesaf fydd addasu i farchnad fwyfwy fyd-eang a byd lle mae'r rhan fwyaf o'r defnydd o gyfryngau yn digwydd drwy wasanaethau digidol ac ar-lein. O gael y strategaethau a'r cymorth priodol, gall y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus gwrdd â'r heriau hyn a pharhau i chwarae rhan hanfodol yn economi greadigol y Deyrnas Unedig ac yn y gymdeithas.